

**CYFARFOD AR Y CYD Y PWYLLGORAU CRAFFU
DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD &
GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**

DYDD LLUN, 21^{AIN} MAI, 2018

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd:

Y Cynghorwyr: J.A. Davies, T.A.J. Davies, P.M. Edwards, A.L. Fox, S.J.G. Gilasbey, J.D. James, A. Vaughan Owen, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, A.D.T. Speake a D. Thomas.

Y Cyngorydd D.L. Jones – Yn eilyddio dros y Cyngorydd T. Higgins;
Y Cyngorydd G. H. John – Yn eilyddio dros y Cyngorydd A. James;
Y Cyngorydd D. E. Williams – Yn eilyddio dros y Cyngorydd A. Davies.

Gofal Cymdeithasol & Iechyd:

Y Cynghorwyr: S.M. Allen, K.V. Broom, I.W. Davies, R.E. Evans, W.T. Evans, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone, E. Morgan a D.T. Williams.

Y Cyngorydd D.E. Williams – Yn eilyddio dros y Cyngorydd A. Davies;
Y Cyngorydd J.G. Prosser – Yn eilyddio dros y Cyngorydd A. McPherson.

Hefyd yn bresennol:

Y Cyngorydd P.M. Hughes, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diogelu'r Cyhoedd;
Y Cyngorydd J. Tremlett, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

A. Bracey, Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu;
K. Thomas, Rheolwr Diogelwch Cymunedol;
K. Barlow, Uwch Reolwr-Anghenion Cymhleth a Throsglwyddo;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democraidd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

Hefyd yn bresennol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

Ms Ros Jervis, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Ms Joanna Dainton, Pennaeth Datblygu Strategaeth Comisiynu a Phartneriaeth
(Camdefnyddio Cyffuriau ac Alcohol)

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10:00a.m. - 11:55 a.m.

1. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cyngorydd G. Thomas yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies, T. Higgins, A. James, E.G. Thomas ac A. McPherson.

3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

4. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD CYNLLUNIO RHANBARTHOL YNGHYLCH CAMDDEFNYDDIO CYFFURIAU AC ALCOHOL 2017

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Ms Ros Jervis, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, a Ms Joanna Dainton, Pennaeth Datblygu Strategaeth Comisiynu a Phartneriaeth (Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol y Bwrdd Cynllunio Ardal, a oedd yn rhoi sylw i ystod o feysydd, er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau a'u diweddarau o ran y trefniadau comisiynu presennol a'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a ddarperir. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- yr amcanion strategol mewn perthynas â darparu gwasanaethau o'r fath, y trefniadau cyllido, a'r gwasanaethau/prosiectau a gomisiynir;
- datblygiadau lleol a chadarnhad o'r trefniadau llywodraethu a chynllunio sydd ar waith yn rhanbarthol.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y cyflawniadau a wnaed yn 2017, a oedd yn cynnwys dosbarthu 397 o gitiau Naloxone. Gofynnwyd pwy oedd wedi derbyn cit Naloxone. Yn ogystal, dywedwyd y gallai codi ymwybyddiaeth o Naloxone a'i ddiben fod yn fuddiol. Gellid cyflawni hyn drwy gynnal y sioe deithiol ynghylch Naloxone ar draws y sir a darparu hyfforddiant i'r rheiny sy'n goruchwyllo drysau tafarnau/clybiau. Esboniodd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd fod Naloxone yn feddyginiaeth a ddefnyddir i atal effeithiau opioidau, yn arbennig mewn achosion gorddos a bod citiau wedi'u dosbarthu'n eang. Roedd yn cydnabod y byddai codi ymwybyddiaeth yn fuddiol ac y byddai hi'n ystyried ehangu'r rhaglen hyfforddiant yn y dyfodol. Ychwanegodd Pennaeth Datblygu'r Strategaeth Comisiynu a Phartneriaeth (Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol) fod Naloxone eisoes yn cael ei ddosbarthu'n eang ar draws ardal Hywel Dda.

- Codwyd pryder mawr o ran nifer gynyddol y bobl ifanc sydd â phroblemau mewn perthynas ag alcohol a chyffuriau, a'r amcan yw cael gwared ar broblemau yn hytrach na'u cuddio. Roedd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn cydnabod bod hwn yn faes heriol a bod ymchwil yn cael ei wneud yn barhaus i sicrhau bod y gwasanaethau cywir yn cael eu comisiynu. Roedd y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cynnwys aml-asiantaethau, y mae pob un ohonynt â chyfrifoldeb i fynd i'r afael â chymhlethdod y materion sy'n codi. Mae'r gwasanaethau triniaeth integredig sy'n darparu dull cyfannol a grŵp deuol sy'n cefnogi ac yn llywio materion heriol o ran iechyd meddwl a chaethiwed.

Yn ogystal, esboniodd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd i'r Pwyllgor fod gwybodaeth newydd wedi dangos nad yw dibyniaeth ar alcohol yn gyfyngedig i bobl ifanc, roedd yn effeithio ar ystod eang o oedrannau gan gynnwys grwpiau o oedran hŷn. Addysg, atal ac ymyrraeth gynnar oedd y prif feysydd a gafodd sylw gan y Bwrdd, a oedd yn hanfodol er mwyn lleihau dibyniaeth ar alcohol. Ychwanegodd Pennaeth Datblygu'r Strategaeth Comisiynu a Phartneriaeth y byddai'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn ymgymryd ag ymarferion i gomisiynu gwasanaethau yn y sector addysg mewn ysgolion a cholegau.

- O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r 5 ffordd o weithio, gofynnwyd a oedd unrhyw gydweithio â'r trydydd sector a chymunedau? Dywedodd Pennaeth Datblygu'r Strategaeth Comisiynu a Phartneriaeth fod Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, sy'n wasanaeth i oedolion, yn gweithio mewn partneriaeth â Dan 24/7, Barod (Drugaid Cymru gynt) a Kaleidoscope, ac mae gan bob un o'r rheiny gysylltiadau agos â chymunedau a busnesau lleol. Yn ogystal, roedd y Bwrdd Cynllunio Ardal yn seiliedig ar feysydd blaenoriaeth Strategaeth Llywodraeth Cymru, ac roedd yn cynnwys Cynllun Cyflawni a oedd yn canolbwyntio ar driniaeth ac adferiad.
- Cyfeiriwyd at blant mewn angen y mae eu rhieni'n cam-drin sylweddau. Gwnaed ymholiad ynghylch diffiniad o blant mewn angen. Esboniodd yr Uwch-reolwr - Anghenion Cymhleth a Phontio, fod plant mewn angen yn golygu plant sy'n derbyn gofal a chymorth a oedd yn cynnwys plant a oedd yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r plant/teuluoedd hynny y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt.
- Gofynnwyd sut yr ydym yn gwybod a yw'r gwasanaethau'n llwyddiannus. Dywedodd Pennaeth Datblygu'r Strategaeth Comisiynu a Phartneriaeth fod y Bwrdd Cynllunio Ardal yn derbyn ac yn craffu adroddiad ynghylch pob gwasanaeth yn chwarterol, sy'n tynnu sylw Cadeirydd y Bwrdd Cynllunio Ardal at feysydd sy'n peri pryder. Yn ogystal, roedd strwythur y Bwrdd yn caniatáu prosesau sicrhau ansawdd a monitro cadarn.
- Gofynnwyd i'r swyddogion sut y mae'r gwasanaeth yn darparu canolfannau galw heibio ac esboniodd Pennaeth Datblygu'r Strategaeth Comisiynu a Phartneriaeth (Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol) fod rhaid i'r holl ganolfannau galw heibio ddarparu gwybodaeth bob chwarter, a bod unrhyw faterion sy'n codi yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd.
Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith sicrhau ansawdd tynn ac os nad yw asiantaeth yn rhoi gwerth am yr arian i ddefnyddiwr y gwasanaeth, bydd y Bwrdd yn ymyrryd.

- Gofynnwyd a oedd cynlluniau i gynnal adolygiad ynghylch effeithiolrwydd blynyddol y Bwrdd Cynllunio. Dywedodd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd fod Arolygiaeth Iechyd Cymru wedi comisiynu adolygiad i'r holl Fyrddau Cynllunio Ardal ar draws Cymru yn gynharach eleni. Disgwylir i ganlyniadau'r adolygiad gael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf/mis Awst 2018.
- Cyfeiriwyd at y 5,000 o ddiwrnodau gwely a oedd wedi'u defnyddio gan gleifion â chyflyrau sy'n gysylltiedig ag alcohol o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Dywedwyd ei fod yn ddiddorol nodi mai'r gost i'r Bwrdd Iechyd oedd dros £5.2 miliwn fesul diwrnod ar gyfer trin cleifion preswyl yn unig.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phennaeth Datblygu'r Strategaeth Comisiynu a Phartneriaeth am yr adroddiad a'r cyflwyniad manwl.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU 2016-17

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau 2016-17 a oedd yn amlinellu'r amcanion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth ystadegol am ystod o wahanol categorïau atgyfeirio a dadansoddiad o ddata o ran oedran, rhywedd a'r sylweddau a ddefnyddir.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i ymholiad a wnaed ynghylch digartrefedd o ganlyniad i ddibyniaeth ar alcohol/cyffuriau, dywedodd yr Uwch-reolwr - Anghenion Cymhleth a Phontio fod yna gysylltiadau agos rhwng digartrefedd a'r defnydd o alcohol/cyffuriau, a oedd wedi'u hystyried a'u cynnwys yn y Strategaeth Ddigartrefedd.
- O ran adsefydlu, gofynnwyd a oedd y prosiect 'tŷ sych' yn gweithio. Esboniodd yr Uwch-reolwr - Anghenion Cymhleth a Phontio i'r Pwyllgor mai tŷ 5 ystafell wely yn Nhŷ-croes yw'r prosiect, sydd â'r nod o gynorthwyo unigolion wrth iddynt adfer drwy ddarparu cyngor arbenigol mewn amgylchedd cefnogol, a bod nifer o lwyddiannau wedi dod yn sgil y prosiect.
- Mewn ymateb i ymholiad a wnaed ynghylch niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau, dywedodd yr Uwch-reolwr - Anghenion Cymhleth a Phontio nad oedd tystiolaeth wirioneddol i awgrymu bod yna gyswllt rhwng defnyddio cyffuriau a niwed i'r ymennydd, er bod yna dystiolaeth i awgrymu bod yna gyswllt rhwng alcohol a phobl yn datblygu anawsterau gwybyddol gan arwain at ddementia yn hwyrach mewn bywyd. Fodd bynnag, gallai fod yna gysylltiadau rhwng defnyddio cyffuriau ac effaith bosibl ar iechyd meddwl.

- O ran cyflwyno isafswm pris yr uned ar gyfer alcohol yn yr Alban, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor gan Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fabwysiadu strwythur prisio unedau yng Nghymru ac mai'r gobaith yw y byddai cytundeb ffurfiol yn cael ei wneud dros yr haf, ac wedyn byddai cyfnod cyflwyno o 2 flynedd.
- Gwnaed ymholiad ynghylch Bws Drugaid a pha mor aml mae'n cael ei ddefnyddio. Dywedodd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd mai Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed oedd yn berchen ar y bws ac y byddai hi'n hapus i wneud ymholiadau a rhoi ffigurau i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR Y 26AIN O FEDI 2016

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod ar y cyd y Pwyllgorau Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a gynhaliwyd ar 26 Medi 2016, gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD